# Ynglŷn â'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer

Mae'r crynodeb hwn ar gael mewn fformat amgen. Cysylltwch â'r tîm Cymorth Myfyrwyr drwy Contact us (ffôn +44 (0)300 303 5303), neu drwy StudentHome os ydych yn un o fyfyrwyr presennol Y Brifysgol Agored.

Lluniwyd y crynodeb hwn ochr yn ochr â'r brif weithdrefn i gynnig cyflwyniad byr. Gall ein cynghorwyr gynnig cyngor, felly Cysylltwch â Ni i drafod hyn. Gall Myfyrwyr a Dysgwyr Cymraeg siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg drwy ffonio +44 (0) 29 2047 1170.

Rydym yn cynnig llwybrau hyfforddiant proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, nyrsio, rhagnodi anfeddygol, addysgu, cwnsela a phlismona. Mae addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â chyrraedd safonau proffesiynol, gan gynnwys eich cymeriad, eich cymhwysedd proffesiynol, eich ymddygiad academaidd a'ch iechyd. Mae'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer yn nodi sut y gallwn gadarnhau addasrwydd ar gyfer hyfforddiant ac addysg, cofrestriad neu gyflogaeth gyda Chorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio, neu gorff cwnsela proffesiynol ar gyfer y rhaglen cwnsela, a sut y byddwn yn ymateb i bryderon am allu ein myfyrwyr a'n dysgwyr i gyrraedd safonau proffesiynol.

## Byddwn yn dilyn yr egwyddorion hyn

- Rydym yn cydnabod y lefel uchel o gyfrifoldeb sy'n ofynnol gan ein myfyrwyr a'n dysgwyr a byddwn yn eu cefnogi i gyflawni hyn.
- Byddwn yn nodi ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau myfyrwyr, dysgwyr, cyflogwyr, noddwyr a darparwyr lleoliadau yn glir drwy ddefnyddio datganiadau ysgrifenedig clir.
- Byddwn yn drylwyr ac yn deg os bydd pryderon yn codi, a byddwn yn cadw at yr amserlen a ddisgrifir ar gyfer pob proses a nodir yn y weithdrefn lawn.

## Cofiwch

Os na fyddwch yn cyrraedd y safonau gofynnol a bennwyd gan y Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddio ar gyfer eich rhaglen proffesiynol, neu gan gorff cwnsela proffesiynol os ydych yn astudio'r rhaglen cwnsela, neu os bydd eich ymddygiad, eich cymeriad neu eich iechyd yn awgrymu eich bod yn anaddas, gall eich cyflogwr dynnu eich cofrestriad fel myfyriwr yn ôl. Gall Y Brifysgol Agored wrthod argymell eich cofrestru ar gyfer y proffesiwn hwnnw. Mae'n hanfodol eich bod chi a'ch noddwyr, eich cyflogwyr neu ddarparwyr eich lleoliadau (lle y bo'n berthnasol) yn rhannu gwybodaeth lawn a chyfredol â ni am unrhyw ymddygiad sy'n peri pryder.

## Eich data

Mae Adran 7, Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth o'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer yn cynnwys manylion llawn am y defnydd o ddata. I grynhoi, caiff data sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn hon eu cadw ar eich cofnod myfyriwr am gyfnod eich rhaglen broffesiynol, neu gyhyd ag y byddwch yn parhau i fod yn fyfyriwr gyda ni ac am chwe blynedd ar ôl i chi adael.

## Sut i gwestiynu penderfyniad a wnaed o dan y weithdrefn hon

I gael gwybodaeth am sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan y weithdrefn hon, cyfeiriwch at y Weithdrefn Gwyno ac Apelio. Cysylltwch â Ni am gymorth.

## Rhowch Eich Adborth i Ni

Os bydd gennych unrhyw sylwadau am y crynodeb hwn o'r weithdrefn a'r ffordd y gellid ei wella, anfonwch nhw atom drwy e-bostio SPR-Policy-Team@open.ac.uk.

## Datganiad yr Elusen

Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff Y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

## Gwybodaeth am y Ddogfen

Lluniwyd y crynodeb byr hwn ym mis Rhagfyr 2024  i gyd-fynd â'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, yn weithredol o fis Rhagfyr 2024.

Cymeradwywyd gan Bwyllgor Profiad Myfyrwyr Y Brifysgol Agored.

Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2025.